# Y camau nesaf i fenywod o ran arallgyfeirio ym maes ffermio yng Nghymru

## Briff Polisi 2 – Tachwedd 2025

## CRYNODEB


Cydnabyddir bod arallgyfeirio ym maes ffermio yn rheidrwydd economaidd i ffermydd. Yng Nghymru, mae arallgyfeirio wedi cael rhywfaint o sylw trawsbleidiol yr oedd angen mawr amdano, ac roedd yr argymhellion yn canolbwyntio ar addasiadau polisi er mwyn annog twf economaidd gwledig (Grŵp Trawsbleidiol ar Dwf Gwledig 2024). Eto i gyd, nid yw cyfraniad menywod i ffermio ac i arallgyfeirio ar ffermydd yn cael ei werthfawrogi nac wedi'i gofnodi yn llawn. Nod y briff polisi hwn yw darparu tystiolaeth ymchwil a all ddangos cyfraniad menywod i arallgyfeirio ar ffermydd yng Nghymru.

Mae wedi'i seilio ar adolygiadau llenyddiaeth a chyfweliadau (30), ac mae'n gwneud pedwar argymhelliad er mwyn gwella'r canlyniadau i fenywod, drwy lwybrau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol a phersonol. Dyma'r argymhellion: cynigir y dylid cael polisi ac adnoddau a all ddarparu cyngor busnes sydd wedi'i deilwra i fenywod a ffermio; polisi datblygu gwledig sy'n hybu cyfleoedd yn y dyfodol i fenywod; polisi arallgyfeirio sy'n mynd i'r afael â'r heriau i fenywod ac sy'n cydnabod cyfraniadau menywod; a chymorth o ran arallgyfeirio a all adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio yn barod a dysgu ohono. Mae'r argymhellion hyn a grëwyd ar y cyd wedi'u cadarnhau gyda menywod sydd wedi arallgyfeirio ym maes ffermio, fel bod modd i'r canfyddiadau gael eu defnyddio'n hyderus mewn polisi.


## CEFNDIR

### Amcanion yr astudiaeth

Nod y prosiect hwn, sy'n ymwneud ag economïau gwledig Cymru, yw **deall y gweithgareddau, y ddealltwriaeth o rolau, a'r adnoddau** sy'n rhan o **gyfraniad menywod i arallgyfeirio ar ffermydd**. Os gellir dangos tystiolaeth o ymwneud menywod ag arallgyfeirio ar ffermydd, gan gynnwys dulliau cynaliadwy o ffermio, gellir defnyddio'r dystiolaeth honno i wella llwybrau, cymorth a chanlyniadau polisi.

### Cyd-destun o ran polisi

Cydnabyddir bod arallgyfeirio ym maes ffermio yn rheidrwydd economaidd i ffermydd, a hynny'n aml er mwyn iddynt ymateb i ddigwyddiadau economaidd annisgwyl ac i faint eu helw. Caiff arallgyfeirio ei arwain gan arloesi, ond ceir cwestiynau hefyd ynghylch sut y gellir cynnal cymunedau ffermio wrth i hynny ddigwydd (Farrell et al. 2025). Mae arallgyfeirio ar ffermydd yng Nghymru yn faes sy'n tyfu, o lai na 10% yn 2017 (Henley a Morris 2019) i 41% yn 2021 (Cutress 2021). Mae llawer o gamau gweithredu a gweithgareddau addawol yn cefnogi'r twf diweddar mewn arallgyfeirio ar ffermydd a'r diddordeb cynyddol ynddo (Cutress 2021), ond ni wyddys fawr ddim am ei nodau cymdeithasol ac amgylcheddol ac am ei botensial o ran tegwch rhwng y rhywiau.

Mae menywod wedi bod yn arallgyfeirio ers amser maith, gan ddilyn rolau traddodiadol yn aml ym maes lletygarwch a thwristiaeth (Kempster et al. 2023). Mae menywod yn debygol o ategu llafur amaethyddol â sgiliau a ddysgwyd o fod wedi defnyddio rhywbeth (Gray 2003) ac â chyflogaeth ym maes economïau creadigol megis marchnata, dylunio, cysylltiadau cyhoeddus a digwyddiadau (Ahl et al. 2024). Mae menywod sy'n ymwneud ag arallgyfeirio ar ffermydd yn llai tebygol o fod wedi cael hyfforddiant mewn colegau amaethyddol, ac yn fwy tebygol o fod â chymwysterau prifysgol (Sivini et al. 2024).

Dylai fod yn amlwg bod menywod yn hybu allbynnau economaidd mewn cymunedau gwledig, ond mewn polisi **nid yw'r darlun o fenywod o ran arallgyfeirio ym maes ffermio yn un calonogol** (Farrell et al. 2024). Adroddwyd wrth Lywodraeth y DU bod rôl menywod mewn gweithgarwch entrepreneuraidd ym maes ffermio yn **fach o ran gwerth ac yn fach o ran cyfleoedd** ac ***nad oedd*** y sawl sy'n ymwneud ag arallgyfeirio ***yn gysylltiedig*** â chyllid, rhwydweithiau, arbenigwyr, na sgiliau digidol a sgiliau busnes (Rose 2019).

Mae'r Grŵp Trawsbleidiol ar Dwf Gwledig a fu'n cyfarfod yn ddiweddar yn y Senedd (2024) yn sôn am yr **angen am addasiadau** i'r drefn gynllunio ac i ardrethi busnes ac esemptiadau'n ymwneud ag eiddo a osodir i dwristiaid, **ond ni chydnabyddir mai menywod sy'n debygol o fod yn creu ac yn rhedeg y busnesau hyn** neu, yn bwysicach na dim, ni cheir safbwynt ar bolisi sy'n ymwneud â rhywedd. Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (Llywodraeth Cymru 2025) wedi'i fabwysiadu yng Nghymru ac mae ganddo gyfeiriad clir: yr unig weithgareddau arallgyfeirio amaethyddol y bydd yn eu hariannu yw rhai sy'n wreiddiol, sy'n cynhyrchu incwm, sy'n creu marchnadoedd newydd neu sy'n lleihau'r ddibyniaeth ar fentrau amaethyddol traddodiadol, e.e, cig eidion, garddwriaeth. Mae hefyd yn cyhoeddi y bydd y Cynllun yn creu tâl sylfaenol am werth cymdeithasol (gwerth cyhoeddus gweithgareddau fferm), sy'n ddiddorol o gofio bod gan fenywod fwy o gysylltiad ag arallgyfeirio sy'n ymwneud â gwerth cyhoeddus amaethyddiaeth draddodiadol, h.y. cyfleoedd i aros ar ffermydd neu brynu bocsys cig (Sivni at al 2024).

## Y sylfaen dystiolaeth

Mae'r briff polisi hwn wedi'i lywio gan 30 o gyfweliadau ansoddol manwl â menywod sy'n ymwneud ag arallgyfeirio ar ffermydd yng Nghymru (26) ac â rhanddeiliaid (4). Dylid nodi bod rhai ohonynt yn ffermwyr hefyd a'u bod wedi sôn am eu cefndir ym maes ffermio. Cafodd gwahoddiadau dwyieithog i gymryd rhan eu hanfon i wahanol fathau o rwydweithiau ffermio er mwyn darparu ar gyfer gwahanol fathau o ddiddordebau ym maes ffermio, gwahanol ardaloedd a gwahanol oedrannau. Gall arallgyfeirio fod yn rhywbeth eang iawn, felly gwnaethom nodi amryw yrfaoedd ym maes ffermio i fenywod, a oedd yn cynnwys perchnogaeth a thenantiaeth (Sutherland et al. 2023), yn ogystal â gwahanol fathau o arallgyfeirio (Horlings a Marsden 2019), er mwyn sicrhau bod ein gwahoddiadau'n adlewyrchu cyfraniadau eang menywod.

Cafodd cyfweliadau yn Gymraeg neu yn Saesneg eu cynnal wyneb yn wyneb (ar y fferm) neu ar-lein (ar Microsoft Teams) rhwng mis Rhagfyr 2024 a mis Mai 2025. Cynhyrchodd pob cyfweliad naratif ynghylch profiadau o arallgyfeirio, yr heriau a'r cyfleoedd, ac arweinyddiaeth a datblygiad, a arweiniodd at hanesion personol manwl am arferion a phrosiectau. Cafodd holiadur byr ei lenwi ar ddiwedd pob cyfweliad, a oedd yn canolbwyntio ar yrfaoedd, mathau o berchnogaeth, a chyfrifoldebau.

Roedd y grŵp olaf o fenywod a gafodd eu cyfweld yn cynnwys prif ffermwyr neu dyfwyr, cyd-ffermwyr neu dyfwyr, gweithwyr fferm, rhanddeiliaid, a'r sawl a oedd wedi ymddeol o ffermio. Roedd mwyafrif y ffermwyr yn gweithio ar ffermydd cymysg lle'r oedd yna ystod o arallgyfeirio'n ymwneud â da byw neu arddwriaeth, ond roedd rhai ohonynt yn ffermydd defaid neu ddofednod yn bennaf. Roedd maint y ffermydd yn amrywio o 8.75 i 850 erw ac roeddent wedi'u gwasgaru ar draws Cymru, gyda'r mwyafrif yn y gogledd ac yna yn y canolbarth. O ran oedran, roedd y menywod yn amrywio o rai yn eu 20au i rai a oedd dros 65 oed, ac roedd dros 10 ohonynt wedi bod yn ffermio ers dros 10 mlynedd. Roedd y mwyafrif wedi'u magu ar fferm ac yn berchen ar dir fel olynydd neu'n ffermio ar y cyd. Roedd llawer ohonynt hefyd yn newydd-ddyfodiaid ac roedd nifer lai wedi dechrau ffermio ar ôl priodi ffermwr.

Ar ôl i'r ymchwilwyr orffen dadansoddi themâu a dadansoddi disgwrs yn feirniadol, bu modd iddynt gynhyrchu cyfres o argymhellion ynghylch polisi a'u hasesu. Digwyddodd hynny mewn gweithdy a gynhaliwyd ym Mhafiliwn Aberystwyth yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru (ar 23 Gorffennaf 2025) lle'r oedd 29 o randdeiliaid perthnasol a chyfranwyr yn bresennol. Amcan y gweithdy oedd gwirio bod yr argymhellion yn berthnasol ac yn gwneud synnwyr. Gan fod y rhai pwysicaf wedi'u nodi a'u hegluro, mae'n bosibl cyflwyno yma y gyfres derfynol o argymhellion y cytunwyd arnynt.

# PRIF GANFYDDIADAU

## Mwy na sgiliau cadw tŷ:

**Awgrym cyffredin yw mai gwerth isel sy'n perthyn i arallgyfeirio gan fenywod, oherwydd ei fod yn cael ei ystyried yn estyniad o waith tŷ. Eto i gyd, mae'r hyn y mae**

## gweithgareddau arallgyfeirio a'r hyn sy'n eu cymell

**menywod yn ei ddweud am eu gweithgareddau yn herio'r diffiniad cul hwn o arallgyfeirio a'r farn gul hon amdano.**

Mae'r arallgyfeirio a gyflawnwyd gan y menywod sy'n ffermio a gafodd eu cyfweld yn amrywiol ac yn ddeinamig. Soniodd y menywod am arallgyfeirio sy'n digwydd ar wahanol adegau ac ar wahanol raddfeydd. Mae llawer wedi adeiladu ar asedau ac adnoddau a oedd yn bodoli'n barod ar ffermydd, neu wedi adeiladu ar syniadau ac arferion yn ymwneud â ffermio. Mae rhywfaint o'r arallgyfeirio yn digwydd ***ar y fferm***, sy'n golygu bod pobl yn dod i'r fferm neu fod eitemau neu sgiliau'n cael eu hanfon i fannau oddi ar y fferm, tra mae gweithgareddau arallgyfeirio eraill yn digwydd ***oddi ar y fferm*** ac yn swyddi gyda thâl o fewn y sector gwledig. Mae llawer o fenywod hefyd yn gwneud y ddau beth – yn gweithio ar y fferm ac oddi arni – yn enwedig yn ystod cyfnodau pwysig yn eu bywyd pan fo angen cynorthwyo aelodau eraill o'r teulu neu pan fo sefyllfa ariannol y fferm yn gofyn am ffynhonnell ychwanegol o incwm.

- <u>Mae arallgyfeirio ar ffermydd</u> fel rheol yn cynnwys **twristiaeth** (gosod llety gwyliau), gweithgareddau **sy'n ymwneud â bwyd** (dull cynhyrchu neu gynnyrch newydd neu fanwerthu bwyd, sy'n cynnwys dofednod, bara, gwenyn a bocsys cig), gweithgareddau **hamdden** (ceffylau, digwyddiadau) a gweithgareddau **ecolegol** (garddwriaeth, addysg).
- <u>Mae arallgyfeirio oddi ar ffermydd</u> yn cynnwys y rolau medrus niferus sydd gan fenywod yn y gymuned wledig fel rheolwyr prosiectau, arweinwyr y diwydiant a gweithwyr proffesiynol ym maes cyllid, y gyfraith ac iechyd anifeiliaid.

Mae'r agweddau hyn ar arallgyfeirio ar ffermydd ac oddi arnynt yn darparu incwm ac awtonomi mewn ffyrdd gwahanol. Mae **twristiaeth**, yn enwedig gosod llety, yn weithgaredd arallgyfeirio poblogaidd ar ffermydd. Rhoddwyd pwys ar ehangu llety i dwristiaid neu arloesi gyda llety o'r fath ar ffermydd traddodiadol, yn enwedig lle mae'r busnes (e.e. gwely a brecwast) wedi cael ei 'etifeddu' o genhedlaeth flaenorol, er mwyn ymateb i alwadau defnyddwyr. Soniodd rhai menywod am fod ar wahân yn fwy helaeth i'w gwesteion y gellir eu lletya y tu allan i'r ffermdy neu gerllaw, e.e. mewn cytiau bugeiliaid.

Mae **cynhyrchu bwyd** yn rhoi cyfleoedd i adeiladu ar adnoddau'r fferm, gan hybu rolau newydd a ffyrdd gwahanol o ryngweithio â'r cyhoedd. Mae enghreifftiau'n cynnwys ysgol goginio lle gellir trefnu archebion gwesteion o gwmpas gweithgareddau eraill, neu fusnes cig sy'n mynd â chig i farchnadoedd lleol. Mae mentrau **hamdden** yn cyd-fynd â diddordeb y cyhoedd mewn ffermydd fel lleoliadau dymunol, e.e. ar gyfer digwyddiadau priodas mewn ysguboriau wedi'u hadnewyddu neu drwy ddiddordebau a rennir, e.e. diddordeb mewn ceffylau. Wrth i fenywod fynd yn fwy annibynnol ac ychwanegu at incwm y fferm, mae gofynion rheoleiddiol a disgwyliadau defnyddwyr yn golygu bod menywod wrthi'n barhaus **yn ehangu eu sgiliau, eu rolau a'u cyfrifoldebau**.

Soniodd menywod hefyd am ddyheadau o ran arallgyfeirio ar ffermydd, sy'n cyfrannu i **gynaliadwyedd amgylcheddol**. Mae ffurfiau newydd ar hynny'n cynnwys: darparu hyfforddiant a gweithdai awyr agored am ecoleg i ffermwyr a thyfwyr, darparu addysg i gorfforaethau ac ysgolion, a darparu gweithgareddau cadwraeth megis amaeth-goedwigaeth, a gweithgareddau gofal o'r math a geir ar ffermydd. Caiff gweithgareddau garddwriaethol megis meithrinfeydd coed, blodau a blodeuwriaeth eu cynrychioli yma. Mae hefyd yn golygu alinio hen arferion megis bridio defaid neu dda byw'n arbenigol â chynaliadwyedd. Rhannodd y menywod wybodaeth am rwydweithiau a phartneriaethau newydd sy'n cyfrannu i'w llwyddiant.

Mae **arallgyfeirio oddi ar ffermydd**, boed drwy swyddi proffesiynol ym maes iechyd, addysg, rheoli prosiectau neu arweinyddiaeth, yn golygu incwm rheolaidd ac yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a throsglwyddo gwybodaeth yn ogystal â chael mynediad i rwydweithiau ehangach. Mae mwyafrif y menywod wedi gweithio oddi ar y fferm, mewn swyddi llawn-amser a rhan-amser. Yng nghyd-destun arallgyfeirio, maent yn holi a yw gwaith oddi ar y fferm yn ddilys, sy'n atgyfnerthu'r farn y gallai gwerth gwaith oddi ar y fferm fod yn cael ei fychanu, yn enwedig pan gaiff ei gyflawni fel mater o drefn gan fenywod.

**Tabl Un: Gall ymdrechion menywod i arallgyfeirio gael eu categoreiddio mewn sawl llwybr sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd**

| Math o lwybr | Enghreifftiau | Prif gymhellion |
|---|---|---|
| Economaidd | Ar ffermydd – twristiaeth, bwyd, hamdden<br>Oddi ar ffermydd – gwaith medrus neu broffesiynol yn y sector gwledig | Cynhyrchu incwm, annibyniaeth ariannol, defnyddio cymwyseddau/sgiliau |
| Ecolegol | Ar ffermydd – amaeth-goedwigaeth, garddwriaeth, darparu hyfforddiant a sgiliau ecolegol, addysgu'r cyhoedd<br>Oddi ar ffermydd – cynghori'r sector gwledig, arwain y diwydiant | Darparu diogeledd bwyd, cyflenwi'n lleol, mentora, arloesi |
| Cymdeithasol a diwylliannol | Ar ffermydd – marchnadoedd bwyd lleol, nwyddau mêl, cig wedi'i gynhyrchu yng Nghymru, fferm therapi/gofal<br>Oddi ar ffermydd – addysgu cyfathrebu, a gwaith ym maes arweinyddiaeth | Cynnig amrywiaeth o ran llafur a gwaith, gwarchod treftadaeth ffermio, cynorthwyo'r gymuned leol |
| Personol | Ar ffermydd – twristiaeth, sef gosod llety gwyliau fel rheol<br>Oddi ar ffermydd – gwaith medrus yn y sector gwledig, fel rheol ym maes addysgu neu reoli | Darparu gofal, hunanofal, awtonomi |

**Mae gan fenywod ystod o weithgareddau arallgyfeirio y gellir eu disgrifio ar draws llwybrau a chymhellion sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd.**

Mae'r cymhellion i arallgyfeirio'n amrywiol. Yn gyffredinol, mae'r sawl a gafodd eu cyfweld yn cytuno ar bwysigrwydd **economeg**, a bod yr arallgyfeirio'n hyfyw o safbwynt economaidd ac nad yw'n defnyddio incwm o'r fferm. Maent hefyd yn sôn na ddylai arallgyfeirio dynnu oddi ar allu'r fferm i gyflawni'r ddau nod sydd ganddi, sef cynhyrchu bwyd a rheoli tir. Hynny yw, yr hyn y mae'r menywod yn ei ddweud yw y dylai arallgyfeirio fod 'ar wahân i'r fferm' ac y dylai fod yn 'hunangynhaliol'.

Nid rhesymau economaidd yw'r unig gymhelliant i fenywod arallgyfeirio. Mae'r menywod yn cyfeirio at resymau **cymdeithasol a diwylliannol** megis awydd i warchod treftadaeth ffermio a chynorthwyo'r gymuned leol drwy estyn cyfleoedd busnes i gyflenwyr lleol eraill. Mae ehangu'r rolau, y swyddi a'r sgiliau sy'n ofynnol ar ffermydd yn cynnig y potensial ar gyfer ystod ehangach o waith, sy'n hybu cyfle a diddordeb mewn gyrfaoedd ym maes ffermio. Mae yna orgyffwrdd â rhesymau **amgylcheddol** er mwyn darparu diogeledd bwyd a gofalu am dda byw, gan reoli'r tir ar yr un pryd a chyflawni gwaith mentora a gwaith arloesi ecolegol.

Ar lefel **bersonol**, mae cymhellion menywod – megis darparu cynhaliaeth i deulu, 'gofalu am' les teuluol, a rhannu llafur gofal ar y fferm ar sail rhywedd – yn chwarae rhan hollbwysig yn y penderfyniad i arallgyfeirio. Mewn llawer o achosion, mae'r rhain yn rymoedd ymarferol sy'n dylanwadu nid yn unig ar y modd y mae menywod yn ymwneud ag arallgyfeirio, ond hefyd ar y rhesymau pam y maent yn dadlau bod arallgyfeirio'n rhoi hyblygrwydd i ofalu am blant neu oedolion hŷn a bod ar gael hefyd i helpu gyda thasgau'r fferm, gan ddarparu incwm ar yr un pryd.

Drwy roi arwyddocâd personol i arallgyfeirio, mae'r cymhellion hyn yn atgyfnerthu'r awtonomi, y rheolaeth a'r annibyniaeth y mae menywod yn sôn amdanynt ac yn eu gwerthfawrogi'n fawr. Ar yr un pryd, mae cydbwyso gofal a gwaith yn cyfyngu ar yr amser a'r capasiti i gyfrannu'n llawnach i incwm y fferm. Caiff y disgwyliad llai i ymwneud â'r fferm fel menyw ei ystyried yn golled ac yn gyfle ar yr un pryd i greu 'lle personol' drwy arallgyfeirio, yn enwedig ar ffermydd lle ceir mwy nag un genhedlaeth.

**Crynodeb: Efallai nad yw cymhellion cymdeithasol, amgylcheddol a phersonol menywod i arallgyfeirio'n cyd-fynd â pholisïau'r llywodraeth sy'n hybu economeg a gwerthoedd twf. Ar y llaw arall, pan fydd polisïau'n hybu cymhellion a gweithgareddau**

**amrywiol, gall y modd y mae menywod yn ymwneud â'u cartref fwrw eu cyfraniad i'r cysgod.**

## Llafur di-dâl ar ffermydd a datblygu gwledig

Cydnabyddir bod arallgyfeirio ym maes ffermio yn strategaeth hanfodol ar gyfer cydnerthedd ffermydd ac ar gyfer economïau gwledig. Fodd bynnag, caiff profiadau menywod eu llywio mewn modd unigryw gan ystod o i) y cyfleoedd a'r capasiti sydd ar gael, ii) profiadau o olyniaeth a pherchnogaeth, iii) effaith polisïau datblygu gwledig ac adnoddau, a iv) heriau bywyd ar fferm. Yn aml, caiff profiad menywod ei anwybyddu mewn fframweithiau polisi o'r brig i lawr, yn rhannol oherwydd bod arallgyfeirio'n cael ei drin fel elfen o ddull fferm gyfan o weithredu, er gwaetha'r dystiolaeth bod gwahanol fathau o waith fferm yn cael eu gwerthfawrogi'n anghyfartal.

**Tabl Dau: Mae grymoedd sy'n llywio llwyddiant menywod yn gorgyffwrdd â llwybrau arallgyfeirio**

| Grymoedd llywio | Math o lwybr | Prif gymhellion |
|---|---|---|
| Profiadau o berchnogaeth ac olyniaeth | Economaidd | Cynhyrchu incwm, annibyniaeth ariannol, defnyddio cymwyseddau |
| Effaith polisïau datblygu gwledig ac adnoddau | Ecolegol | Darparu diogeledd bwyd, cyflenwi'n lleol, mentora, arloesi, rhwydweithiau gwledig |
| Heriau bywyd ar fferm | Cymdeithasol a diwylliannol | Cynnig amrywiaeth o ran llafur a gwaith, gwarchod treftadaeth ffermio, cynorthwyo'r gymuned leol, cydnerthedd |
| Y cyfleoedd, y capasiti a'r sgiliau sydd ar gael | Personol | Darparu gofal, hunanofal, awtonomi, datblygu sgiliau |

**1. Cyfleoedd, capasiti a sgiliau.** Caiff menywod gyfleoedd gwahanol i ddatblygu sgiliau, gan eu bod yn llai tebygol na dynion o gael hyfforddiant a phrofiadau amaethyddol uniongyrchol. Gan ddechrau o oedran ysgol, mae eu llwybr tuag at arallgyfeirio ar ffermydd yn llwybr anuniongyrchol sy'n aml yn cynnwys gyrfaoedd eraill oddi ar ffermydd.

Aeth rhai o'r menywod i'r brifysgol, sydd i deuluoedd sy'n ffermio yn golygu symud oddi cartref. Soniodd menywod am yrfaoedd ym maes y celfyddydau, y cyfryngau a byd busnes yn ogystal â'r ffaith bod priodas yn arwain at rolau gofalu anffurfiol fel rhieni. I fenywod eraill, nid oedd arallgyfeirio'n llwybr syml, ac roedd digwyddiadau megis methu ag etifeddu fferm, colli tenantiaeth neu farwolaeth rhiant yn tarfu ar y llwybr hwnnw. Yn yr un modd, roedd priodas yn creu partneriaethau a chytundebau newydd yn ymwneud ag arian neu dir, a allai feithrin cyfleoedd neu olygu bod yn rhaid ailgychwyn. Mae pobl sy'n ymuno â'r diwydiant yn adeiladu ffermydd ac yn arallgyfeirio o'r newydd, ond mae'n bosibl nad oes ganddynt y rhwydweithiau ffermio hŷn sy'n gallu cynnig mynediad a chymorth breintiedig.

Dywedodd menywod eu bod yn aml yn gorfod profi eu sgiliau a'u profiadau, sydd weithiau – pan fydd rhieni neu eraill yn holi – yn arwain at y penderfyniad i barhau i weithredu ar raddfa fach neu i beidio ag arallgyfeirio. Yn yr achosion hynny, gall arloesi ddigwydd o hyd ond yr hyn a bwysleisir yw'r angen am adnoddau, arian a chymorth annibynnol a all helpu i leihau'r ymdeimlad o risg.

**Crynodeb: Mae menywod yn cytuno bod arallgyfeirio'n gyfle i feithrin sgiliau, gwybodaeth ac incwm. Ar yr un pryd, mae menywod yn cyfrannu llawer o incwm, gwybodaeth a sgiliau lefel uchel i weithgarwch arallgyfeirio.**

**2. Profiadau o olyniaeth a ffermydd lle ceir mwy nag un genhedlaeth.** Mae menywod yn sôn am arallgyfeirio fel ffordd i gael incwm ac awtonomi. Caiff yr awtonomi hwn ei werthfawrogi'n arbennig ar ffermydd lle ceir mwy nag un genhedlaeth a lle mae'r olyniaeth yn ansicr. Hynny yw, os nad yw'r modd y mae asedau wedi'u dosbarthu yn glir, mae arallgyfeirio'n fodd i gyd-fynd â'r fferm ond i barhau'n annibynnol arni o safbwynt ariannol.

Mae'r angen i chwilio am gyllid i arallgyfeirio'n gallu arwain at drafodaethau busnes â banciau, cyfreithwyr a grwpiau busnes. Caiff y trafodaethau hynny, sy'n aml yn ysgogi trefniadau cyfreithiol sy'n egluro olyniaeth ac etifeddiaeth ar gyfer unigolion, eu hystyried yn bethau cynhyrchiol. Mae hynny'n wahanol i rwystredigaethau'r gymuned ffermio ehangach, a

gofnodir yn gyhoeddus, ynghylch newidiadau deddfwriaethol arfaethedig i drethi ac ynghylch canlyniadau hynny ar gyfer tir ac asedau'r fferm gyfan, a gaiff eu hetifeddu. Felly, gall cyd-bartneriaethau cyfreithiol fod yn ddrud ac yn anodd eu stumogi ond gallant ddiogelu dyfodol menywod sydd â chyllid, awtonomi a chymorth effeithiol.

Gellir adnabod y newydd-ddyfodiaid, oherwydd roedden nhw'n sôn am ba mor anfforddiadwy yw tir ac am yr ansicrwydd sy'n perthyn i denantiaethau. Mae'r bobl hynny'n cyfrannu i'r drafodaeth drwy fyfyrio ynghylch yr anallu i ddechrau arallgyfeirio oherwydd diffyg tir neu asedau eraill. Mae tyddynnod a microfusnesau sy'n lleihau'r ymdeimlad o risg yn llwybr tuag at arallgyfeirio ar gyfer y grŵp hwn. Ar yr un pryd, roedd bod yn 'fach' yn cynyddu'r tebygolrwydd na fyddai'r gymuned ffermio ehangach yn cymryd y ffermwr o ddifrif, h.y. y byddai'n ystyried y ffermwr yn rhywun sy'n ffermio fel hobi neu sy'n ffermio'n anfasnachol.

**Crynodeb: Gall economeg arallgyfeirio ym maes ffermio – cyllid, asedau, risg – sy'n gysylltiedig ag olyniaeth a ffermydd lle ceir mwy nag un genhedlaeth esgor ar effeithiau a chanlyniadau gwahanol ar gyfer menywod.**

**3. Polisïau a chyllid rhanbarthol.** Mae menywod yn hybu eu harallgyfeirio drwy gynlluniau datblygu rhanbarthol sy'n darparu cymorth (grantiau, cyngor) ar gyfer gweithgareddau megis gosod llety gwyliau neu redeg busnesau arlwyo. Mae menywod yn tynnu sylw at realiti go iawn deddfwriaeth a rheoleiddio yng Nghymru, yn enwedig effeithiau polisïau mwy newydd sydd fel pe baent yn gwrth-ddweud y cymorth y mae eu ffermydd wedi'i gael yn flaenorol.

Un enghraifft a roddwyd oedd y rheol drethu ar gyfer llety gwyliau yng Nghymru. Ers 2023, mae rheoliadau wedi pennu'r nifer ofynnol o ddiwrnodau gosod – neu'r nifer ofynnol o ddiwrnodau y mae'n rhaid bod eiddo wedi'i feddiannu ac ar gael i'w osod – fel bod modd iddo dalu ardrethi busnes yn briodol a chyfrannu i'r economi leol ym maes twristiaeth. Fel arall, gall cynghorau godi treth gyngor uwch ar y tirfeddiannwr (hyd at 4 gwaith yn uwch).

Mae'r nifer ofynnol o ddiwrnodau gosod wedi'i thrafod yn helaeth. Dywed y sawl sydd o'i phlaid ei bod wedi'i chyflwyno er mwyn sicrhau bod perchnogion ail gartrefi yn cyfrannu'n economaidd i gymunedau, ac er mwyn helpu i fynd i'r afael â diffyg cartrefi fforddiadwy i bobl leol. Ar y llaw arall, dywed y menywod sydd â ffermydd mewn ardaloedd gwledig diarffordd ei bod yn annhebygol y byddent yn bodloni'r nifer ofynnol o ddiwrnodau gosod, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cosbi'n arbennig oherwydd diffyg gwahaniaethu gwledig. Mae hynny'n arbennig o wir am ardaloedd sy'n gweld llawer o wahaniaethau tymhorol ym maes twristiaeth. Er enghraifft, mae ardaloedd mynyddig Eryri yn y gogledd yn boblogaidd yn yr haf, ond mae'r gaeafau yno'n hirach ac yn galetach nag mewn ardaloedd twristaidd eraill. Mae'r menywod yn dadlau dros gael polisïau sy'n adlewyrchu eu profiadau go iawn, ac sy'n cefnogi yn fwy amlwg fentrau sy'n hybu twristiaeth wledig a gwaith rheoli tir ar ffermydd – polisïau sy'n cynnwys rhai'n ymwneud â threth dwristiaeth, treth etifeddiant, cyflogau teg a rheoliadau amgylcheddol.

Ar y llaw arall, rhoddodd menywod yr oedd ganddynt fusnesau arallgyfeirio yn un o dri pharc cenedlaethol Cymru enghreifftiau lle mae'r cynlluniau datblygu rhanbarthol yn benodol iawn i ranbarthau. Mae menywod yn aml yn tynnu sylw at brosesau cynllunio hirfaith – sydd weithiau'n arwain at wrthod rhoi caniatâd i ddatblygu – ac at reoliadau amgylcheddol caeth. Er y bernir bod rheoliadau yn y meysydd hyn yn benodol i ranbarthau, caiff arallgyfeirio ei lywio hefyd gan y manteision y mae'r ardal yn eu darparu, megis cynllun twristiaeth cydlynol (Cynllun Parc Cenedlaethol) a hawliau mynediad i dir comin, sy'n dod gyda llawer o ffermydd yn y mannau hyn a gaiff eu gwarchod.

Roedd rhwydweithiau ffermio'n elfen amlwg o'r trafodaethau am bolisïau datblygu gwledig ac ansicrwydd. Drwy adnoddau a sefydliadau lleol, mae menywod yn gallu deall a bodloni disgwyliadau defnyddwyr neu dwristiaid, cydymffurfio â pholisïau amaethyddol ac amgylcheddol, a chael mynediad i adnoddau sy'n mynd i'r afael â bylchau o ran arallgyfeirio.

**Crynodeb: Nid yw'r mathau o arallgyfeirio a gyflawnir gan fenywod yn cael eu cynrychioli'n ddigonol o hyd mewn polisïau datblygu gwledig, sy'n cyfyngu ar allu'r polisïau hynny i ymateb i anghenion penodol y grŵp hwn. Mae hynny er gwaetha'r ffaith bod menywod yn ymatebol i ddatblygu gwledig sy'n gwella cymunedau lleol.**

**4. Cyd-destun heriol bywyd a bywoliaeth ar fferm**. Mae profiad menywod o lafur di-dâl, her ac o wahaniaethu'n ganolog i'w profiad o arallgyfeirio. Mae menywod yn sôn am

anawsterau ffermio, y gwerth nad yw'n cael ei gydnabod, gwleidyddiaeth negyddol, staffio tymhorol a heriau o ran yr hinsawdd. Yn aml, byddant yn ymgymryd â rolau sy'n mynd â llawer o'u hamser ac sy'n golygu eu bod mewn sefyllfa lle maent yn cefnogi pobl eraill yn emosiynol ac yn cyflawni swyddi di-dâl na chydnabyddir eu bod yn waith. Menywod sy'n ymdrin â llawer o waith gweinyddol y fferm, yn llenwi ffurflenni, yn ymwneud â hyfforddiant ynghylch sgiliau, yn gofalu am iechyd meddwl ac yn rheoli staff a'r cyhoedd.

Un her fawr yw'r gwahaniaethu y mae rhai menywod yn ei wynebu gan aelodau'r teulu, ffermwyr eraill a busnesau ffermio yn ogystal â chontractwyr a chynllunwyr, a rhagdybiaeth y bobl hynny am ddiffyg sgiliau'r menywod. Gall rhagdybiaethau dwfn am fenywod sy'n ffermio olygu bod perygl i fenywod gael eu hystyried yn 'anghymwys' os ydynt yn cwyno neu'n gofyn am gyngor neu gymorth. Yn aml, bydd menywod sy'n rhoi gwybod am achosion o wahaniaethu'n arwain galwadau am i fenywod arallgyfeirio yn eu ffordd eu hunain. Mae hynny nid yn unig yn hybu anogaeth i fenywod eraill ond hefyd yn cyfrannu sensitifrwydd o ran rhywedd i'r heriau y mae menywod yn y diwydiant ffermio'n eu hwynebu.

Mae menywod yn y diwydiant ffermio'n parhau i gael eu cynrychioli'n ormodol yn y gwaith di-dâl a wneir fel mater o drefn gan fenywod. Nid yw mwyafrif y menywod yn cael cyflog, nid ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn gweithgarwch datblygu proffesiynol oddi ar y fferm, ac maent yn darparu gofal i blant ac oedolion sy'n rhan o'r teulu, sy'n cyfyngu ar eu gallu i gyfranogi a chael eu cydnabod yn gyfranwyr i economi wledig.

**Crynodeb: Mae a wnelo'r her sy'n gysylltiedig â bywyd gwledig ar ffermydd nid yn unig â sefydlu mannau cynhwysol lle gall menywod gyfranogi; mae a wnelo hefyd â chreu cyfleoedd i werthfawrogi a chydnabod cyfraniad menywod fel bod amrywiaeth yr economi wledig yn cael ei chydnabod.**

## Mae rhwydweithiau'n bwysig

Mae'r cymorth a ddarperir gan rwydweithiau yn bwysig i fenywod sy'n ymwneud ag arallgyfeirio ym maes ffermio. Mae'r rhwydweithiau yn ffynonellau gwybodaeth a chyngor, a gellir eu teilwra i fenywod a'r mathau o weithgareddau arallgyfeirio y mae menywod yn fwyaf tebygol o ymwneud â nhw.

**Tabl Tri: Integreiddio dimensiynau arallgyfeirio ym maes ffermio ar gyfer menywod**

<table>
<tr><th>Grymoedd llywio</th><th>Math o lwybr</th><th>Prif gymhellion</th><th>Rhwydweithiau</th></tr>
<tr><td>Profiadau o berchnogaeth ac olyniaeth</td><td>Economaidd</td><td>Cynhyrchu incwm, annibyniaeth ariannol, defnyddio cymwyseddau</td><td rowspan="4">Mynediad i gymorth a chyngor<br><br>Gwneud safbwyntiau menywod yn fwy amlwg<br><br>Gwerthfawrogi'r raddfa fach</td></tr>
<tr><td>Effaith polisïau datblygu gwledig ac adnoddau</td><td>Ecolegol</td><td>Darparu diogeledd bwyd, cyflenwi'n lleol, mentora, arloesi, rhwydweithiau gwledig</td></tr>
<tr><td>Heriau bywyd ar fferm</td><td>Cymdeithasol a diwylliannol</td><td>Cynnig amrywiaeth o ran llafur a gwaith, gwarchod treftadaeth ffermio, cynorthwyo'r gymuned leol, cydnerthedd</td></tr>
<tr><td>Y cyfleoedd, y capasiti a'r sgiliau sydd ar gael</td><td>Personol</td><td>Darparu gofal, hunanofal, awtonomi, datblygu sgiliau</td></tr>
</table>

### 1. Mynediad i gymorth a chyngor

Dywed llawer o fenywod o gefndir ffermio fod eu syniadau busnes wedi datblygu tra oeddent yn ymwneud â sefydliadau ffermio cenedlaethol a chynlluniau cymorth ffermio megis Cyswllt Ffermio, Mentera, Ffermio Cyfeillgar i Natur, y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad ac NFU Cymru. Sonnir yn benodol bod rôl Llywodraeth Cymru o ran trefnu rhwydweithiau ffermio yn gadarnhaol ac yn unigryw ymhlith y gwledydd datganoledig. Mae'r rhwydweithiau hyn yn rhoi cyfle i fenywod rannu profiadau o ddiwylliant ffermio yng Nghymru (drwy gyfrwng y Gymraeg) a chael gwybodaeth am grantiau a rheoliadau sy'n benodol i Gymru. Mae menywod yn elwa'n enwedig pan fo'r cymorth a'r cyngor yn ymarferol, wedi'u teilwra ac yn para y tu allan i gyfarfodydd unigol. Dywed menywod eu bod yn profi cyfeillgarwch ac ymdeimlad o gymuned drwy rannu cyngor dibynadwy, a chymorth emosiynol a chymdeithasol.

Dywed menywod hefyd y byddai mwy o gymorth ffermio sydd wedi'i deilwra ar gyfer busnes yn ddefnyddiol. Er bod y rhwydweithiau ffermio'n elwa o sgiliau arwain ac arloesi, mae'n bosibl nad ydynt wedi cael hyfforddiant trylwyr ynghylch datblygu busnes. Ar y llaw arall, roedd newydd-ddyfodiaid yn fwy tebygol o ddechrau arallgyfeirio drwy sefydliadau megis Busnes Cymru, er bod ffermwyr sydd wedi ennill eu plwyf yn teimlo nad oedd y sefydliad hwnnw wedi'i deilwra yn dda ar gyfer ffermio ac y gallai cymorth gael ei ddylunio'n well i ddiwallu anghenion y diwydiant ffermio.

**Crynodeb: Gan fod cymorth a chyngor ar gael, ceir cyfle i adeiladu ar gyngor a chymorth ffermio a busnes, a'u hintegreiddio, ar gyfer newydd-ddyfodiaid a ffermwyr sydd wedi ennill eu plwyf.**

**2. Gwneud safbwynt menywod ar arallgyfeirio ym maes ffermio'n fwy amlwg**

Mae profiad cadarnhaol menywod o rwydweithiau yn dibynnu ar sut y caiff eu profiad fel menywod ei gydnabod a sut yr ymatebir iddo, a'r modd y caiff eu safbwynt ei gyfleu i eraill.

I rai menywod, mae unigrwydd a'r galwadau sydd ar eu hamser yn golygu eu bod yn gwerthfawrogi cyfleoedd i rannu eu profiadau â menywod eraill ac i nodi atebion priodol. Maent yn sôn bod y gallu i gysylltu â menywod eraill oddi ar y fferm yn helpu i reoli arallgyfeirio o ddydd i ddydd – o ymdrin â chwsmeriaid i rannu syniadau busnes a chydweithio er mwyn creu cyfleoedd/digwyddiadau busnes newydd. At hynny, maent yn barod i ddweud sut y mae eu profiadau unigryw fel menywod yn effeithio ar eu gallu i gyfranogi'n llawn neu i gyfrannu'n llawn i bolisi a chymorth o ran arallgyfeirio.

I fenywod eraill, partneriaethau fferm a newid rolau'r rhywiau yw'r norm, a cheir disgwyliad bod menywod yn cael eu cynnwys mewn ffyrdd mwy cyfartal mewn rhwydweithiau arallgyfeirio. Mae menywod iau'n fwy tebygol o alw am ddigwyddiadau arallgyfeirio cynhwysol, a hyrwyddir i fenywod a dynion, er mwyn mynd i'r afael â heriau yn y diwydiant ffermio ac nid â heriau i fenywod yn unig.

Mae menywod yn sôn yn gyson am y pwysau sydd ar eu hamser o fwy nag un cyfeiriad. Mae eu cyfraniad o ran amser at redeg fferm ac i'r gymuned yn aml yn anweladwy mewn cyngor a chymorth o ran arallgyfeirio ym maes ffermio. Yn benodol, nid yw llawer o'r menywod yn disgwyl cael cyflog, hyd yn oed yng nghyd-destun sector sy'n gyfarwydd â thalu contractwyr a thalu am ystod o wasanaethau i ffermydd, o wasanaethau cynghorwyr i wasanaethau rheolwyr tir.

**Crynodeb: Mae gwneud safbwynt menywod yn fwy amlwg nid yn unig yn decach ond hefyd yn rhoi cyfrif cywir am gyfraniadau arallgyfeirio ym maes ffermio i economïau gwledig, yn enwedig o ran amser, sgiliau, gwerthoedd a gweithgarwch.**

**3. Gwerthfawrogi mentrau bach ac ecolegol.** Mae menywod yn ymwneud yn helaeth â mentrau a chynlluniau ecolegol. Mae hynny'n wir am newydd-ddyfodiaid ac am ffermwyr sydd wedi ennill eu plwyf. Mae newydd-ddyfodiaid yn fwy llafar am eu nodau ecolegol. Fodd bynnag, mae gan ffermwyr sydd wedi ennill eu plwyf brofiad o reoli tir ar draws cenedlaethau a phrofiad o ymdrin â rheoliadau, grantiau a gwaith papur.

Yn aml, bydd menywod yn arwain gweithgareddau arallgyfeirio sy'n gweithredu ar raddfa lai, sy'n adlewyrchu'r ffaith bod ganddynt lai o fynediad i dir, adnoddau ac amser. Er y gall yr agweddau hyn fod yn her fawr, mae menywod yn eiriol dros ffrwyno ymdrechion i weithredu ar raddfa fwy a thros ganolbwyntio ar arallgyfeirio'n lleol – megis cyflenwi cig organig y gellir ei olrhain a chyflenwi wyau maes, dysgu pobl i goginio, ac ymateb i anghenion lleol o ran bwyd a gweithgareddau hamdden. Mae menywod yn chwilfrydig ynghylch trefniadau cydweithio llorweddol rhwng garddwriaeth ac amaethyddiaeth, er enghraifft. Maent wedi defnyddio rhwydweithiau i gynorthwyo newydd-ddyfodiaid ac arallgyfeirio ym maes garddwriaeth, ac maent wedi dod ag arweinyddiaeth i rwydweithiau amaethyddol prif ffrwd. I newydd-ddyfodiaid, yn enwedig, mae ffafrio gweithgarwch ar raddfa fach yn golygu mynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig ag anhysbysrwydd a phreifatrwydd bywyd a syniadau busnes.

**Crynodeb: Mae cydnabod gwerth cyfraniad menywod at arallgyfeirio ym maes ffermio yn gwneud mwy na hybu ymdrechion unigol a chymunedau lleol. Mae angen iddo gydnabod a chynorthwyo ymdrechion ar raddfa fach a mentrau ecolegol lleol fel bod modd iddynt ffynnu, a chyfrannu i dwf gwledig ar draws mannau bach a lleol yng Nghymru.**

# ARGYMHELLION

O'n canfyddiadau sydd wedi'u crynhoi uchod a'r sylwadau ychwanegol a wnaed yn y gweithdy i adolygu canfyddiadau'r ymchwil, hoffem gynnig nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru ac i rwydweithiau ffermio a busnes.
Mae ein hargymhellion yn cynnwys pedair menter ymarferol yn syth i gydnabod cyfraniad menywod sydd wedi arallgyfeirio ym maes ffermio i economi wledig Cymru. Mae pob argymhelliad wedi'i fapio yn unol â gwaith dadansoddi'r canfyddiadau, ac maent yn cynrychioli profiad a dealltwriaeth menywod ar draws pedwar llwybr arallgyfeirio sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd, a nodwyd gan ein hymchwil.
Caiff y pedwar argymhelliad eu crynhoi yn y tabl isod. Ymhelaethwyd arnynt ar y tudalennau blaenorol. Dangosodd ein gweithgareddau ymgysylltu fod yna lawer o gefnogaeth i'r argymhellion hyn, ac y dylent fod yn gyfrwng defnyddiol ar gyfer camau gweithredu a gydlynir yn ganolog i hybu twf menywod a busnesau sy'n arallgyfeirio ym maes ffermio yng Nghymru.

**Tabl Pedwar: Argymhellion ar gyfer polisi – llwyddiant a gwelliannau mewn arallgyfeirio ym maes ffermio i fenywod yng Nghymru**

| **Sefyllfa bresennol i fenywod o ran arallgyfeirio ym maes ffermio yng Nghymru** | | | | **Llwyddiant a gwelliannau** | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Grymoedd llywio** | **Math o lwybr** | **Prif gymhellion** | | **Rhwydweithiau** | **Argymhellion** |
| Profiadau o berchnogaeth ac olyniaeth | Economaidd | Cynhyrchu incwm, annibyniaeth ariannol, defnyddio cymwyseddau | ⟺ | Mynediad i gymorth a chyngor<br><br>Gwneud safbwyntiau menywod yn fwy amlwg<br><br>Gwerthfawrogi'r raddfa fach | **1. Darparu cyngor busnes sydd wedi'i deilwra i fenywod a ffermio** |
| Effaith polisïau datblygu gwledig ac adnoddau | Ecolegol | Darparu diogeledd bwyd, cyflenwi'n lleol, mentora, arloesi, rhwydweithiau gwledig | | | **2. Sicrhau bod polisi datblygu gwledig yn hybu cyfleoedd yn y dyfodol i fenywod** |
| Heriau bywyd ar fferm | Cymdeithasol a diwylliannol | Cynnig amrywiaeth o ran llafur a gwaith, gwarchod treftadaeth ffermio, cynorthwyo'r gymuned leol, cydnerthedd | | | **3. Sicrhau polisi arallgyfeirio cynhwysol – sy'n cydnabod cyfraniadau menywod ac yn mynd i'r afael â heriau** |
| Y cyfleoedd, y capasiti a'r sgiliau sydd ar gael | Personol | Darparu gofal, hunanofal, awtonomi, datblygu sgiliau | | | **4. Sicrhau bod cymorth o ran arallgyfeirio'n adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio ac yn dysgu ohono** |

## Argymhelliad 1:

## Dylid darparu cyngor busnes sydd wedi'i deilwra i anghenion menywod a ffermio

### o ran mathau o fusnes, 'cynlluniau twf', cyllid, y gyfraith, cyflogaeth, a rheoli tir yn ecolegol

Nid yw gwella cyngor busnes yn golygu o reidrwydd bod mentrau wedi'u hanelu at fenywod yn unig, ond nodwyd bod yna fwlch rhwng y rhywiau o ran cael mynediad i gymorth a hyfforddiant. Fel y mae ein gwaith wedi dangos, mae'n bosibl nad yw cyngor busnes yn canolbwyntio ddigon ar ardaloedd gwledig neu ffermio, neu nad yw cyngor ffermio yn mynd i'r afael ag anghenion penodol menywod fel newydd-ddyfodiaid neu fel ffermwyr sydd wedi ennill eu plwyf. Mae'r argymhelliad hwn yn cefnogi integreiddio strategaethau presennol a ddefnyddir gan gyrff megis Busnes Cymru a Cyswllt Ffermio, fel eu bod o fudd i nifer fwy o weithgareddau arallgyfeirio ym maes ffermio. Mae'n canolbwyntio ar deilwra cyngor busnes er mwyn cysylltu menywod ***a*** ffermio ***ac*** arallgyfeirio â'i gilydd.

## Argymhelliad 2: Mae angen i bolisïau datblygu gwledig hybu cyfleoedd yn y dyfodol i fenywod o ran arallgyfeirio ym maes ffermio

ar draws strategaethau gwledig, bwyd, bioamrywiaeth, twristiaeth, addysg a hyfforddiant, a ffermio cynaliadwy

Mae mentrau niferus wedi'u cyflwyno er mwyn hybu datblygu economaidd gwledig yng Nghymru sy'n cynorthwyo menywod i ddechrau eu gweithgareddau, rhoi cymorth iddynt a'u hadeiladu. Ceir cryn dipyn o bolisïau a rheoliadau y mae ffermydd yn eu rheoli fel busnesau bach, ac mae'n bosibl bod yna ormod o fusnesau twristiaeth. Yn anffodus, wrth i bolisïau newydd ddatblygu, gallant esgor ar ganlyniadau anfwriadol. Er bod datblygu gwledig yn rhywbeth i'w groesawu, mae ein hymchwil yn dangos bod mentrau trawsbynciol yn gallu cael effaith fwy helaeth ar fenywod, yn aml oherwydd nad yw eu cyfraniadau wedi'u cydnabod ac oherwydd y cyfrifoldebau y maent yn eu hysgwyddo i gynorthwyo cymunedau a theuluoedd. Mae'r argymhelliad hwn yn cefnogi sicrhau bod polisïau'n addas i ardaloedd gwledig, ac mae'n ceisio cynnwys menywod wrth fynd ar drywydd nodau ehangach o ran datblygu ac o ran materion ecolegol.

## Argymhelliad 3: Dylid sicrhau polisi arallgyfeirio cynhwysol ym maes ffermio sy'n cydnabod cyfraniadau menywod ac yn mynd i'r afael â heriau

sy'n hybu gwerthfawrogiad o sgiliau, gweithgareddau a rolau menywod, ac yn mynd i'r afael ag unigrwydd ac yn lleihau baich gweinyddol

Cadarnhawyd yn ein gweithdy mai dyma'r argymhelliad pwysicaf i fenywod – a'r un mwyaf heriol hefyd i lunwyr polisi roi sylw iddo. Yr anhawster y mae menywod sy'n ymwneud ag arallgyfeirio ym maes ffermio'n ei wynebu yw bod yr amser a'r adnoddau y maent yn eu darparu yn anweladwy ac nad oes digon o werth yn cael ei roi arnynt, sy'n ei gwneud yn anodd deall sut i fynd i'r afael â'r mater hwn. At hynny, mae unigrwydd, perchnogaeth, diffyg cyfle, a phrofiadau o wahaniaethu'n feichiau y mae menywod yn eu cario.

Mae llunio polisïau mewn modd cynhwysol yn golygu cydnabod pwysigrwydd cyfraniad menywod. Maent yn cyfrannu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad sy'n gysylltiedig â thwf sydd ar raddfa lai ond sy'n llorweddol drwy drefniadau cydweithio lleol. Dadleuir o blaid gwerthfawrogi menywod o safbwynt tâl ac adnoddau. Cafodd enghreifftiau eu rhannu am fentrau eraill gan gyrff cyhoeddus, sy'n rhoi cydnabyddiaeth ariannol i weithwyr a gofalwyr nad ydynt yn cael tâl digonol am eu cyfraniad, ac sy'n cydnabod gwerth cyffredinol ffermio i'r economi wledig.

Mae'r argymhelliad hwn yn awgrymu y dylai byd busnes a'r llywodraeth gydnabod bod menywod wedi ymwneud erioed ag arallgyfeirio ym maes ffermio, gan gadw busnesau gwledig bach a chymunedau lleol gyda'i gilydd, ond er mwyn adeiladu'r sector hwn bod angen i bolisi ymateb i'r cwestiwn 'pwy sy'n gofalu am y menywod'.

## Argymhelliad 4: Dylid adeiladu ar yr hyn sy'n gweithio a dysgu ohono

rhaglenni a chymorth ymarferol, e.e. Mentera, Cyswllt Ffermio

Argymhellir y dylid adeiladu ar brofiad blaenorol Llywodraeth Cymru o ddarparu cymorth i fenywod o ran arallgyfeirio ym maes ffermio. Pwysleisir pwysigrwydd cael corff trefnu canolog sydd â'r adnoddau i

gefnogi a chreu rhwydweithiau ffermio llwyddiannus. Nodwyd rhai bylchau i fenywod o ran arallgyfeirio ym maes ffermio, megis ym maes garddwriaeth, a gofynnwyd am i raglenni gael eu cyflwyno sy'n cydnabod bod economeg fodern ffermio'n golygu bod angen i fenywod weithio ar y fferm ac oddi arni, sy'n golygu nad yw bob amser yn bosibl mynychu cyrsiau yn ystod y dydd neu wyneb yn wyneb. Mae'r argymhelliad hwn yn cydnabod bod rhwydweithiau wedi bod yn ganolog i lwyddiant arallgyfeirio ym maes ffermio ar gyfer menywod, a bod yna gymorth ar gael gan fenywod sydd wedi elwa o'r rhwydweithiau hyn, y gall llunwyr polisi fanteisio arno er mwyn sicrhau bod y mentrau lleol hyn yn cael cymaint o effaith ag sy'n bosibl.

## Cyfeiriadau


Ahl, H., Berglund, K., Pettersson, K., a Tillmar, M. 2024. Women's contributions to rural development: implications for entrepreneurship policy. *International Journal of Entrepreneurial Behavior & Research*, *30*(7), 1652-1677.

Cutress D. 2021. Overview and prioritization of main themes from the farming connect baseline survey (2021). [2021 Baseline Survey Report (1).pdf]

Farrell, M., Sarkki, S., Fransala, J., Murtagh, A., Weir, L., Ahl, H., ... a Heikkinen, H. I. 2024. Empowering Women-Led Innovations: Key Players In Realising The Long-Term Vision For Rural Areas. *European Countryside*, *16*(4), 563-588.

Farrell, M., Murtagh, A., Weir, L., a Van Oost, I. 2025 Breaking barriers: How women are transforming agriculture and rural innovation. *European Public Mosaic (EPuM). Open Journal on Public Service*, 106-121.

Gray, J. 2003. A rural sense of place: intimate experience in planning a countryside for life. *Planning Theory & Practice*, *4*(1), 93-96.

Henley, A., a Morris, W. 2019. Arallgyfeirio a gwytnwch ffermio yng Nghymru: rhagolygon ar ôl Brexit. Ymchwil y Senedd. https://senedd.wales/media/bkxjyknz/19-079-cy-web.pdf

Horlings, L. G., a Marsden, T. K. 2014. Exploring the 'New Rural Paradigm' in Europe: Eco-economic strategies as a counterforce to the global competitiveness agenda. *European Urban and Regional Studies*, *21*(1), 4-20.

Kempster, Z., Morris, W., Manning, L., a Bowen, R. 2023. The role of women in United Kingdom farm businesses. *The International Journal of Entrepreneurship and Innovation*, 14657503231159766.

Llywodraeth Cymru 2025 [Cynllun Arallgyfeirio Amaethyddol (ffenestr 2): llyfryn rheolau | LLYW.CYMRU]

Horlings, L. G., & Marsden, T. K. 2014. Exploring the 'New Rural Paradigm'in Europe: Eco-economic strategies as a counterforce to the global competitiveness agenda. *European Urban and Regional Studies*, *21*(1), 4-20.

Sivini, S., Annie Roos, A., ac Leonardelli, I 2024. D.3.3: Women-led Innovations in Agriculture and Rural Areas, Lessons Learned Report and Fact Sheets on Female Innovations. Zenodo. https://doi.org/10.5281/zenodo.14045390

Sutherland, L. A., McKee, A., Hopkins, J., a Hasler, H. 2023. Breaking Patriarchal Succession Cycles: How Land Relations Influence Women's Roles in Farming☆. *Rural Sociology*, *88*(2), 512-545.

Rose, A. 2019. The Alison Rose review of female entrepreneurship. Trysorlys EF. Ar gael yma: https://www.gov.uk/government/publications/the-alison-rose-review-of-female-entrepreneurship

| GWYBODAETH AM Y | |
|---|---|
| **Ymchwilwyr** | Yr Athro Sara MacBride-Stewart (Prifysgol Caerdydd), Dr Lucy Baker (Prifysgol Aberystwyth), Dr Alison Parken (Prifysgol Caerdydd), Dr Elen Bonner (Prifysgol Bangor) |
| **Mewn cydweithrediad â** | Dyluniwyd ar y cyd â chyfranogwyr yr ymchwil |
| **Darllen pellach** | Mae adroddiad llawn y prosiect ar gael i'w lawrlwytho o www.lpip.cymru |
| **I gael rhagor o wybodaeth** | **Cysylltwch â:** Yr Athro Sara MacBride-Stewart: macbride-stewarts@cardiff.ac.uk |

Cafodd y gwaith ymchwil yr adroddir yn ei gylch yn y Briff Polisi hwn ei gyflawni yn rhan o Bartneriaeth Leol Polisi ac Arloesi Cymru Wledig, a ariennir gan Ymchwil ac Arloesi y Deyrnas Unedig (UKRI), sef corff Llywodraeth y DU ar gyfer cyllido ymchwil. Nod y Bartneriaeth yw cryfhau'r sylfaen dystiolaeth er mwyn llunio a gweithredu polisïau'n effeithiol ar gyfer ardaloedd gwledig Cymru; archwilio atebion arloesol i heriau sy'n ymwneud â pholisi, a rhoi prawf ar yr atebion hynny; a grymuso cymunedau i ddefnyddio gwaith ymchwil i fynd i'r afael â phryderon lleol, gan weithio tuag at greu economi lesiant gynhwysol a chynaliadwy yn ardaloedd gwledig Cymru. Caiff Partneriaeth Leol Polisi ac Arloesi Cymru Wledig ei chydlynu gan Brifysgol Aberystwyth, a'i phartneriaid yw Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, y Sefydliad Ymchwil i Gefn Gwlad a Chymunedau ym Mhrifysgol Swydd Gaerloyw, Canolfan y Dechnoleg Amgen, Gyda'n Gilydd Dros Newid, Antur Cymru, Datblygiadau Egni Gwledig, Represent Us Rural, Iechyd a Gofal Gwledig Cymru, a Sgema. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael ar www.lpip.cymru neu drwy gysylltu ag lpip@aber.ac.uk.

UK Research and Innovation

**Sut mae cyfeirio at y ddogfen:** MacBride-Stewart, S., Baker, L., Parken, A., a Bonner, E (2025) Y camau nesaf i fenywod o ran arallgyfeirio ym maes ffermio yng Nghymru. Briff Polisi. Cymru Wledig LPIP Rural Wales.